

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r datganiadau hyn yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Lesley Griffiths AS  
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd  
29 Tachwedd 2023.

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

Gwneir yr offeryn hwn o dan bwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael") i ddiwygio deddfwriaeth ym maes iechyd planhigion.

Bydd yr offeryn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") sy'n gymwys o ran Cymru. Mae'n sicrhau bod yr amserlen ar gyfer gosod ffioedd penodol yng Nghymru yn cyd-fynd â'r cyfnod graddoli trosiannol estynedig, sef y Cynllun Cymorth Symud. Dyma'r esemptiad rhag talu ffioedd am wasanaethau ardystio cyn-allforio ac allforio ar gyfer symud planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau penodol eraill a reoleiddir ("deunyddiau a reoleiddir") i Ogledd Iwerddon, er mwyn hwyluso masnach rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon.

Bydd yr offeryn hefyd yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019"), sy'n gymwys o ran Cymru. Bydd hyn yn ailsefydlu esemptiad o dan amgylchiadau penodol rhag talu ffioedd mewn perthynas â cheisiadau i'r Comisiwn Coedwigaeth am dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio (neu ailallforio) deunyddiau a reoleiddir i Ogledd Iwerddon, er mwyn hwyluso masnach rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon. Bydd y dyddiad dod i ben a gyflwynir yn cyd-fynd â'r cyfnod graddoli trosiannol estynedig, sef y Cynllun Cymorth Symud.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Cafodd Rheoliad 3(5D) o Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 ei estyn yn wreiddiol yn unol â ffioedd iechyd planhigion eraill yng Nghymru ac yn y llywodraethau eraill, ond daeth i ben yn anghywir ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2022.

Er y gellid bod wedi cymhwyso Ffioedd yn 2023, oherwydd y gwall o beidio ag ymestyn y cyfnod hwn, ni chafodd unrhyw ffioedd eu cymhwyso i allforion a reoleiddir o dan reoliad 3(5C) yn ystod 2023, ar ôl i'r ddarpariaeth beidio â chael effaith, ac, felly, ni roddwyd ac ni roddir neb o dan anfantais.

Bellach mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn nawr yn darparu ar gyfer esemptiad o'r dyddiad y daw'r offeryn hwn i rym. Bydd yr esemptiad yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 30 Mehefin 2025

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Mae'r offeryn yn ymwneud â'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd Mae'n cael ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7(2) o Atodlen 4 a pharagraffau 1(8) a 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn

gadarnhaol ddrafft. Mae'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw ddatganiadau perthnasol yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

Bydd yr offeryn hwn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 sy'n gymwys o ran Cymru. Mae'n sicrhau bod yr amserlen ar gyfer gosod ffioedd penodol yng Nghymru yn cyd-fynd â'r cyfnod graddoli trosiannol estynedig ac a ailsefydlwyd – sef y Cynllun Cymorth Symud.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Nid yw'r diwygiadau a gyflwynir yn cynnwys unrhyw newidiadau i bolisi. Mae'r offeryn yn sicrhau bod y polisi presennol ar gyfer masnach o fewn y DU yn cael ei gynnal; hynny yw ni ddylai gwasanaethau ardystio cyn-allforio ac allforio fod yn faich ariannol ychwanegol ar fusnesau wrth symud deunyddiau a reoleiddir o fewn marchnad fewnol y DU.

Diben yr offeryn hwn yw estyn ac ailsefydlu'r esemptiad rhag talu ffioedd am wasanaethau ardystio cyn-allforio ac allforio sy'n gysylltiedig â deunyddiau a reoleiddir sy'n cael eu symud o Gymru i fusnes neu unigolyn preifat yng Ngogledd Iwerddon. Enw'r esemptiad hwn yw'r Cynllun Cymorth Symud, a bydd yn parhau i hwyluso masnach rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon.

Mae'r Alban a Lloegr yn bwriadu gwneud deddfwriaeth gyfochrog, a fydd yn cael yr un effaith yn eu tiriogaethau hwy.

#### ***Beth oedd unrhyw gyfraith berthnasol yr UE yn ei wneud cyn y diwrnod ymadael?***

Mae rheoliad (EU) 2016/2031 ar fesurau amddiffynnol yn erbyn plâu planhigion, a Rheoliad (EU) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill (a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion amddiffyn planhigion yn cael ei chymhwyso) yn sefydlu rheolaethau a chyfyngiadau sy'n berthnasol i fewnforio planhigion penodol, plâu planhigion a deunyddiau eraill, a'u symud yn fewnol. Diben y Rheoliadau hyn yw helpu i leihau risgiau bioddiogelwch a diogelu'r amgylchedd rhag lledaeniad plâu niweidiol.

Mae Erthygl 79 o Reoliad (EU) 2017/625 yn ei gwneud yn ofynnol codi ffioedd am reolaethau swyddogol penodol, gan gynnwys gwiriadau iechyd planhigion ar lwythi a reoleiddir penodol sy'n cael eu mewnforio. Mae Rheoliadau 2018 (fel y'u diwygiwyd) yn pennu ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd planhigion, gan gynnwys gwasanaethau archwilio mewnforion, a ddarperir yng Nghymru.

Mae Atodiad 6 i Reoliad (EU) 2017/625 yn rhoi ystyr y cyfnod graddoli trosiannol.

Ar hyn o bryd mae Rheoliadau 2018 yn galluogi'r Cynllun Cymorth Symud, gan ddarparu esemptiad rhag talu ffioedd am wasanaethau ardystio cyn-allforio ac allforio mewn perthynas â symud deunyddiau a reoleiddir penodol o Gymru i

Ogledd Iwerddon, yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Disgwylir i'r eithriad hwn ddod i ben ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2023.

Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 yn gweithredu Erthygl 13D o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ar fesurau amddiffynnol rhag cyflwyno organebau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion i'r gymuned, a rhag eu lledaeniad o fewn y gymuned.

Mae Erthygl 13d o'r gyfarwyddeb honno yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gasglu ffioedd am wiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion a gynhelir ar lwythi penodol o bren, cynhyrchion pren a rhisgl wedi ei wahanu sy'n deillio o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ("llwythi a reolir"). Mae'r Rheoliadau'n nodi amgylchiadau pan fydd rhaid talu ffioedd i Weinidogion Cymru.

Roedd Rheoliad 3 yn darparu esemptiad, o dan amgylchiadau penodol, rhag talu ffioedd mewn perthynas â cheisiadau i'r Comisiwn Coedwigaeth am dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio (neu ailallforio) i Ogledd Iwerddon ar gyfer llwythi sy'n cynnwys pren, cynhyrchion pren, rhisgl wedi'i wahanu neu beiriannau coedwigaeth sydd wedi cael eu defnyddio. Daeth yr esemptiad hwn i ben yn anghywir ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2022.

### ***Pam y mae'n cael ei newid?***

Mae Fframwaith Windsor yn golygu bod Gogledd Iwerddon yn parhau i fod yn rhan o gyfundrefn iechyd planhigion yr UE. Felly, mae'n rhaid i symudiadau deunyddiau a reoleiddir penodol rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon fodloni gofynion trydedd wlad yr UE, gan gynnwys cyflwyno tystysgrif ffytoiechydol gyda'r deunyddiau. Byddai hyn yn ychwanegu costau ychwanegol at fusnesau wrth fasnachu o fewn marchnad fewnol y DU.

Ar hyn o bryd disgwylir i'r esemptiadau rhag talu ffioedd a ddeddfwyd ar eu cyfer gan Reoliadau 2018 ddod i ben ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2023. Mae angen estyn y dyddiad dod i ben hwn i atal costau am wasanaethau ardystio cyn-allforio ac allforio, i fusnesau neu unigolion preifat sy'n symud deunyddiau a reoleiddir o Gymru i Ogledd Iwerddon o dan amgylchiadau penodol.

Gadawyd i'r esemptiadau rhag talu ffioedd hyn a ddeddfwyd ar eu cyfer gan Reoliadau 2019 ddod i ben yn anghywir ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2022. Bydd y diwygiad hwn yn darparu ar gyfer cyfnod esemptio newydd o'r dyddiad y daw'r offeryn hwn i rym, i atal costau mewn perthynas â cheisiadau i'r Comisiwn Coedwigaeth am dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio (neu ailallforio) llwythi sy'n cynnwys pren, cynhyrchion pren, rhisgl wedi'i wahanu neu beiriannau coedwigaeth sydd wedi cael eu defnyddio. Er y gellid bod wedi cymhwyso Ffioedd yn 2023, oherwydd y gwall o beidio ag ymestyn y cyfnod hwn, ni chafodd unrhyw ffioedd eu cymhwyso i allforion a reoleiddir o dan reoliad 3(5C) yn ystod 2023, ar ôl i'r ddarpariaeth beidio â chael effaith, ac, felly, ni roddwyd ac ni roddir neb o dan anfantais oherwydd y bwlch yn y cyfnod esemptio.

Mae'r ddau ddiwygiad yn sicrhau cysondeb ac aliniad â Lloegr a'r Alban, lle mae diwygiadau cyfatebol yn cael eu gwneud.

### ***Beth y bydd yn ei wneud nawr?***

O ran Rheoliadau 2018, mae'r offeryn hwn yn estyn y Cynllun Cymorth Symud – sef yr esemptiad rhag talu ffioedd am wasanaethau ardystio cyn-allforio ac allforio ar gyfer symud ddeunyddiau a reoleiddir penodol i Ogledd Iwerddon – tan 30 Mehefin 2025.

Mewn perthynas â Rheoliadau 2019, mae'r offeryn hwn yn ailsefydlu esemptiad, o'r dyddiad y daw'r offeryn hwn i rym, rhag talu ffioedd penodol ar gyfer ceisiadau i'r Comisiwn Coedwigaeth am dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio (neu ailallforio) llwythi sy'n cynnwys pren, cynhyrchion pren, rhisgl wedi'i wahanu neu beiriannau coedwigaeth sydd wedi cael eu defnyddio i Ogledd Iwerddon. Bydd yr esemptiad yn cael effaith tan ddiwedd 30 Mehefin 2025.

Bydd estyn ac ailsefydlu'r dyddiadau dod i ben hyn yn atal costau am wasanaethau ardystio cyn-allforio ac allforio i fusnesau neu unigolion preifat sy'n symud deunyddiau a reoleiddir o Gymru i Ogledd Iwerddon o dan amgylchiadau penodol.

## **5. Ymgynghori**

Nid yw'r diwygiadau a gyflwynir gan yr offeryn hwn yn cynnwys unrhyw newidiadau polisi. Mae'r offeryn yn sicrhau bod y polisi presennol ar gyfer masnach o fewn y DU yn cael ei gynnal; sef ni ddylai gwasanaethau ardystio cyn-allforio ac allforio ar gyfer deunyddiau sy'n mynd i drydydd gwledydd fod yn faich ariannol ychwanegol ar fusnesau wrth symud deunyddiau a reoleiddir o fewn marchnad fewnol y DU.

Roedd adborth o waith ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid, a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU, yn gefnogi yn gryf yr estyniad arfaethedig, o ystyried y manteision y byddai'n eu cynnig ar gyfer masnach.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

### ***Nodwch:***

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei baratoi mewn perthynas â Rheoliad 2 o'r offeryn hwn. Mae'r Rheoliad hwn yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddar is-ddeddfwriaeth. Nid yw'r diwygiadau hyn yn newid polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol, na'r ffordd mae'r polisi'n cael ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gynnal mewn perthynas â Rheoliad 3 o'r Offeryn hwn. Dewiswyd Opsiwn 2.

## **RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol canlynol wedi cael ei gynnal mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth lechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) yng Nghymru.

### **Opsiynau**

#### **Opsiwn 1. Busnes fel Arfer**

Roedd y diwygiad diweddaraf i Reoliad 3 paragraff (5D) o Reoliadau lechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 [Rheoliadau lechyd Planhigion \(Ffioedd\) \(Coedwigaeth\) \(Cymru\) 2019 \(legislation.gov.uk\)](#) yn gosod diwedd **31 Rhagfyr 2022** yn ddyddiad dod i ben ar gyfer yr esemptiad. Ar y pryd roedd hyn yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfatebol yng Nghymru ynghylch lechyd Planhigion (lechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2018) a deddfwriaeth Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) gyfatebol yn yr Alban a Lloegr.

Gosodwyd diwygiad pellach i Reoliadau lechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2018 ac i ddeddfwriaeth gyfatebol Lloegr a'r Alban a oedd yn newid y dyddiad dod i ben i ddiwedd **31 Rhagfyr 2023**, i estyn yr esemptiad rhag talu ffioedd am flwyddyn galendr arall.

Fodd bynnag, yn sgil gwall ni chafodd y dyddiad dod i ben a nodir yn Rheoliad 3, paragraff (5D) o Reoliadau lechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 ei ddiwygio o ddiwedd 31 Rhagfyr 2022 i ddiwedd 31 Rhagfyr 2023 hefyd i gyd-fynd â'r gwledydd eraill a'r diwygiad i ddeddfwriaeth lechyd Planhigion Cymru.

#### **Opsiwn 2. Deddfu i estyn yr esemptiad rhag talu ffioedd**

Bwriad y polisi yw estyn esemptiad a roddwyd ar waith ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd i helpu gyda'r newid. Rhoddwyd yr esemptiad ar waith yn wreiddiol i hwyluso masnach yn benodol rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon, gan hepgor ffioedd am dystysgrifau ffytoiechydol am gyfnod penodol, er mwyn lleihau costau tra oedd masnachwyr yn cymryd y camau angenrheidiol i gydymffurfio â rheolau iechydol a ffytoiechydol newydd ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben yn 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ailsefydlu'r esemptiad rhag talu ffioedd ar gyfer Coedwigaeth, o'r dyddiad y daw'r offeryn hwn i rym tan ddiwedd **30 Mehefin 2025**, i'w gadw yn unol â'r un dyddiad cau estynedig sy'n cael ei ddeddfu yn Lloegr a'r Alban.

## **7. Costau a manteision**

#### **Opsiwn 1. Busnes fel Arfer**

Dyma'r opsiwn llinell sylfaen, felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai'n ofynnol i unrhyw fusnesau yng Nghymru sy'n masnachu cynhyrchion coedwigaeth gyda Gogledd Iwerddon dalu ffi i'r Comisiwn Coedwigaeth am dystysgrif ffytoiechydol. Byddai hyn yn rhoi busnesau yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â busnesau yn Lloegr a'r Alban lle mae esemptiad sy'n hepgor y ffi hon ar waith tan fis Mehefin 2025.

Ar 1 Ebrill 2019, llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Ysgrifennydd Cabinet Lywodraeth yr Alban dros yr Economi Wledig, a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr Coedwigaeth (ar y pryd), ar gyfer darparu Swyddogaethau Coedwigaeth a Chyflawni Ymchwil yn drawsffiniol.

Mae Atodlen 2 o'r Memorandwm, "Iechyd Planhigion a Deunyddiau Atgenhedlu Coedwigoedd", yn ymdrin â chyflawni dyletswyddau a phwerau iechyd planhigion statudol penodol (coedwigaeth) a rheoleiddio Deunyddiau Atgenhedlu Coedwigaeth ac archwiliadau ar y ffin o bren a chynhyrchion pren sy'n dod i Brydain Fawr. O dan yr Atodlen hon, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn defnyddio a chasglu ffioedd ar gyfer Cymru a Lloegr. Ein dull polisi yn dilyn ymadael â'r UE fu cynnal cyfundrefn Iechyd Planhigion gyson y naill ochr i'r ffin a'r llall, gan gynnwys newidiadau rheoleiddiol. I wneud hynny, dylai deddfwriaeth Cymru ynghylch Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) adlewyrchu'r deddfwriaeth gyfatebol yn Lloegr. Nid yw'n gwneud hyn ar hyn o bryd.

## **Opsiwn 2. Deddfu i ailsefydlu'r esemptiad rhag talu ffioedd tan ddiwedd 30 Mehefin 2025**

Mae'r esemptiad rhag talu'r ffioedd yn Atodlen 4 y mae paragraff (5D) yn ymdrin ag ef yn gohirio'r rhwymedigaeth ariannol ar fusnesau yng Nghymru i dalu'r ffioedd perthnasol wrth fasnachu gyda Gogledd Iwerddon, gan leihau costau wrth i fasnachwyr gymryd y camau sydd eu hangen i gydymffurfio â rheolau iechydol a ffytoiechydol newydd (yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE) ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben yn 2020. Bydd rhoi'r estyniad ar waith ar gyfer gweithredu'r esemptiad yn ôl-weithredol ac yn y dyfodol o fudd i'r busnesau yng Nghymru yr effeithir arnynt. Mae'r ffioedd y mae Atodlen 4A yn ymdrin â nhw fel a ganlyn:

Ystyried cais, gan gynnwys dyroddi tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio, neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio pan fo hynny'n briodol: £21.00.

Archwilio neu brofi pren, cynnyrch pren, rhisgl wedi'i wahanu neu beiriannau coedwigaeth sydd wedi cael eu defnyddio, ynghyd â gweithgareddau cysylltiedig (gan gynnwys teithio ac amser swyddfa:

- a) hyd at a chan gynnwys yr awr gyntaf; £37.80.
- b) wedi hynny, am bob 15 munud ychwanegol neu ran o'r cyfnod hwnnw £10.50.

Ni wyddys faint o fasnach a fydd yn digwydd rhwng nawr a Mehefin 2025 ac a fyddai fel arall wedi bod yn destun ffi.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cadarnhau nad yw unrhyw ddeunyddiau a reoleiddir wedi cael eu hallforio o Gymru i Ogledd Iwerddon ers Ionawr 2023. Mae hyn yn golygu nad yw'r un o'r ffioedd y mae'r esemptiad yn ymdrin â nhw wedi cael ei chymhwyso hyd yn hyn, yn ystod 2023. Felly, nid yw busnesau Cymru wedi cael eu rhoi o dan anfantais gystadleuol o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban, gan nad yw unrhyw ffioedd wedi cael eu codi.

Mae hefyd yn annhebygol y byddai unrhyw allforwyr o Gymru wedi penderfynu peidio ag allforio oherwydd bod y ffioedd ar waith yn ystod 2023, gan nad yw gwefan UK.GOV sy'n hysbysu busnesau ledled Prydain am y rheolau sy'n berthnasol i allforion a'r ffioedd cysylltiedig yn gwahaniaethu rhwng Cymru a Lloegr a'r Alban. Felly, mae'n deg cymryd bod risg isel iawn bod busnesau wedi deall bod yr esemptiad rhag ffioedd ar gyfer Cymru wedi dod i ben ac wedi ystyried hyn wrth wneud eu penderfyniadau busnes.

Ni fydd ailsefydlu'r esemptiad fel y'i disgrifir uchod, drwy wneud Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023, yn arwain at unrhyw oblygiadau cost i Lywodraeth Cymru ac mae'n rhoi budd yn unig i fusnesau yr effeithir arnynt.

Yn ogystal â chael gwared ar gost bosibl i fusnesau, mae'r opsiwn hwn hefyd yn sicrhau bod ein dull polisi yn gyson â Lloegr a'r Alban.

## **8. Ymgynghori**

Nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi cael ei gynnal ers i'r esemptiad gwreiddiol gael ei roi ar waith fel rhan o Gynllun Cymorth Symud Gogledd Iwerddon, yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, roedd adborth o waith ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid, a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU, yn gefnogol iawn i'r estyniad arfaethedig, o ystyried y manteision y byddai'n eu cynnig ar gyfer masnach.

## **9. Asesu'r gystadleuaeth**

Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi cael ei gynnal. Ni ddisgwylir y bydd y Rheoliadau yn effeithio ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru nac yn cael effaith andwyol ar allu busnesau Cymru i gystadlu.

## **10. Adolygiad ar ôl gweithredu**

Er mwyn mesur y manteision, byddai'n bosibl monitro nifer y busnesau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau allforio y mae'r esemptiad yn ymwneud â nhw, ac amcangyfrif nifer y tystysgrifau nad oedd eu hangen a nifer yr oriau archwilio a arbedwyd o ganlyniad.



**Atodiad**  
**Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**

**Rhan 1**

Tabl Datganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fydd hynny'n ofynnol. Mae'r datganiadau gofynnol yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

| <b>Datganiad</b> | <b>Ble mae'r gofyniad</b>   | <b>I bwy y mae'n berthnasol</b>   | <b>Beth sy'n ofynnol ganddo</b>  |
|------------------|---|---|--|
| Sifftio          | Paragraffau 3(7) a 4(3),<br>Atodlen 7<br><br>Rheol Sefydlog 27.1A | Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud Offeryn Statudol negyddol<br><br>Mae paragraff 3(7) yn gymwys i Weinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad | Datganiad i esbonio pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n berthnasol, pam mae'n anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (fel y pwyllgor sifftio) |
| Priodoldeb       | Is-baragraff (2) o baragraff 28,<br>Atodlen 7                     | Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau         | Datganiad nad yw'r Offeryn Statudol yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol.   |

|              |  |  |   |
|--------------|--|--|---|
|              |  | yn Atodlen 2   |   |
| Rhesymau Da  | Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7         | Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn gam rhesymol i'w gymryd.   |
| Cydraddoldeb | Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7 | Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | Datganiad i egluro pa ddiwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 a'r ddeddfwriaeth a wnaed oddi tanynt.<br><br>Datganiad bod y Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu achosion o wahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| Esboniadau   | Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7         | Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2.  | Datganiad i egluro'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, ee, ai dim ond  |

|             |  |  |   |
|-------------|--|--|---|
|             |  | Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2   | mân newidiadau neu newidiadau technegol y bwriedir eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Troseddau   | Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7 | Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2   | Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb sydd ynghlwm.                 |
| Is-dirprwyo | Paragraff 30, Atodlen 7                            | Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na ellir ei arfer gan Weinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig.<br><br>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o | Datganiad i esbonio pam mae'n briodol creu pŵer o'r fath sydd wedi'i is-ddirprwyo.          |

|      |   |   |  |
|------|---|---|--|
|      |   | Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na ellir ei arfer gan Weinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig                       |  |
| Brys | Is-baragraffau (2) a (8) o baragraff 7, Atodlen 7 | Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond sy'n defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7 | Datganiad bod Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen gwneud yr Offeryn Statudol drwy ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau dros y farn honno. |

## Rhan 2

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

### 1. Datganiad priodoldeb

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i nid yw Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023 yn gwneud mwy nag sy'n briodol".

Mae hyn yn wir oherwydd bod yr offeryn hwn yn gwneud newidiadau i sicrhau bod y polisi presennol ar gyfer masnach o fewn y DU yn cael ei gynnal; sef ni ddylai gwasanaethau ar gyfer ardystio cyn-allforio ac allforio i drydydd gwledydd fod yn faich ariannol ychwanegol ar fusnesau wrth symud deunyddiau a reoleiddir penodol o fewn marchnad fewnol y DU.

### 2. Rhesymau da

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr Offeryn hwn ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod yn gam gweithredu rhesymol." Maent fel a ganlyn; bydd ymestyn y Cynllun Cymorth Symud yn atal costau diangen i fasnachwyr ac unigolion sy'n symud deunyddiau a reoleiddir penodol o Gymru i Ogledd Iwerddon.

### 3. Cydraddoldeb

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiad(au) canlynol:

"Nid yw'r offeryn drafft yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth na darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny."

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Mewn perthynas â'r offeryn drafft, rwyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waharddir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu oddi tani."

#### **4. Esboniadau**

Gwnaed y datganiad esboniadau ym mharagraff 4 (Diben a'r effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael) o brif destun y memorandwm esboniadol hwn.